

Patrwm cyflwyno *O fis Mai i fis Hydref*
 O fis Tachwedd i fis Ebrill

Disgrifiad o'r modiwl

Mae'r modiwl yn mabwysiadu diffiniad eang o arloesedd, gan amrywio o newid a gwelliant cynyddol i arloesedd radical neu 'aflonyddgar', ac mae'n berthnasol i fyfyrwyr sy'n ymwneud â rheoli arloesedd neu sydd â diddordeb ynddo mewn sectorau a chyd-destunau amrywiol, gan gynnwys: Technoleg Gwybodaeth ac IS, telathrebu, cyfrifiadura, peirianeg, gweithgynhyrchu, cludiant a logisteg, manwerthu, cynhyrchu a chyflenwi ynni, amddiffyn a diogelwch, rheoli a gweinyddu, a gwasanaethau o bob math gan gynnwys iechyd, lles a hamdden. Ym mhob un o'r meysydd uchod, a mwy, mae prif themâu'r modiwl hwn - o greu, rheoli, trosglwyddo/rhannu a chynnal arloesedd - yn ganolog i weithredu sefydliadau o bob maint ac o bob math yn effeithiol.

Ym Mloc 1, mae myfyrwyr yn cael trosolwg o faes arloesedd technolegol. Yna, mae'r blociau dilynol yn cyflwyno nifer o faterion amserol arloesedd, megis arloesedd agored ac arloesedd gwyrdd. Mae'r modiwl hwn yn archwilio'r materion manwl y mae angen mynd i'r afael â nhw, i sicrhau bod arloesedd technolegol yn cael ei annog a'i roi ar waith mewn ffordd effeithiol. Mae'r modiwl hwn yn cyfuno safbwyntiau rheoli arloesedd arweiniol â thechnegau ymarferol ar gyfer hwyluso agweddau penodol ar y broses arloesedd yn y maes pwnc hwn sy'n symud yn gyflym.

Gellir dod o hyd i ddisgrifiad llawn y modiwl hwn ar wefan Y Brifysgol Agored.

Manyleb y person

Dylid darllen manyleb y person ar gyfer y modiwl hwn yn unol â'r [fanyleb gyffredinol](#) ar gyfer darlithydd cyswllt yn Y Brifysgol Agored.

Yn ogystal â bodloni'r holl ofynion a nodir yn y fanyleb person gyffredinol, dylech feddu ar y canlynol:

- y wybodaeth ddiweddaraf am dechnoleg a rheoli arloesedd wedi'i hategu gan radd ôl-raddedig neu gymhwyster cyfatebol
- profiad uniongyrchol o reoli arloesedd technolegol ar lefel rheolwr mewn cyd-destun busnes/diwydiant.
- tystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol cyson a diweddar ym maes technoleg a/neu reoli arloesedd.
- ymwybyddiaeth feirniadol o brosesau arloesedd technolegol, wedi'i hategu gan wybodaeth am y llenyddiaeth academaidd berthnasol.
- y gallu i diwtora myfyrwyr o gefndiroedd amrywiol yn effeithiol ar lefel meistr yn y maes pwnc hwn
- Tystiolaeth o'r gallu i weithio i derfynau amser byr ac ymateb yn brydlon wrth gynnig cyngor, adborth a chefnogaeth i fyfyrwyr.

Byddai'n fanteisiol pe byddech yn meddu ar y canlynol:

- cymhwyster dysgu ar lefel AU neu wedi derbyn cydnabyddiaeth broffesiynol gan yr Academi Addysg Uwch.
- profiad blaenorol a'r gallu amlwg i gwblhau dyletswyddau darlithydd cyswllt Y Brifysgol Agored yn effeithiol ar lefel meistr ar gyfer rheoli technolegol neu fodiwl cysylltiedig.
- ymchwil ddiweddar ym maes rheoli technoleg a/neu strategaeth arloesedd.
- bod yn rhan o fodiwl neu ddyluniad/cynhyrchiad asesu ym maes rheoli technolegol
- profiad o weithio gyda cheisiadau ar-lein ac adnoddau i gefnogi dysgu o bell.

Manylion y modiwl – mae eglurhad llawn ar y wefan

Y credydau a gaiff eu dyfarnu i'r myfyriwr ar ôl cwblhau'r modiwl yn llwyddiannus:	30
Nifer yr aseiniadau a gyflwynir gan y myfyriwr:	3
Dull cyflwyno aseiniadau:	2
Lefel y gofynion TGCh:	3
Nifer y myfyrwyr sy'n debygol o fod mewn grŵp safonol:	20
Band cyflog:	5
Y nifer amcangyfrifedig o oriau fesul wythnos addysgu:	7